

Gweithio mewn Partneriaeth â'r Trydydd Sector – Cyngor Bro Morgannwg

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2512A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bro Morgannwg yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol ag adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009 ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gall hefyd lywio astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn rhinwedd ei swydd unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os bydd cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Mae trefniadau'r Cyngor yn cefnogi ei ffordd bresennol o weithio gyda'r trydydd sector, ond bellach gellid eu cryfhau er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella ei berthynas i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau adfer strategol y Cyngor.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae trefniadau'r Cyngor yn cefnogi ei ffordd bresennol o weithio gyda'r trydydd sector, ond bellach gellid eu cryfhau er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella'r berthynas i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau adfer strategol y Cyngor 7

Mae trefniadau'r Cyngor yn ei wasanaethu'n dda ar gyfer ei ffordd bresennol o weithio gyda'r trydydd sector 7

Mae'r pandemig wedi amlygu pwysigrwydd y trydydd sector wrth helpu cymunedau ac mae cyfleoedd i wella ei swyddogaeth 8

Mae'r Cyngor yn awyddus i gydweithio'n fwy â'r trydydd sector a bydd angen iddo ystyried sut y mae angen i'w drefniadau, gan gynnwys ei ddull o ariannu a goruchwyllo, addasu i gefnogi newid diwylliant o'r fath 9

Atodiadau

Atodiad 1 – rhestr wirio ar gyfer awdurdodau lleol sy'n ymgysylltu'n effeithiol ac yn gweithio gyda'r trydydd sector 13

Adroddiad cryno

Crynodeb

Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

- 1 Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar ein hadolygiad o Raglen Ail-lunio Gwasanaethau Cyngor Bro Morgannwg (y Cyngor), a gynhaliwyd gennym rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Chwefror 2020.¹ Un o'r cynigion ar gyfer gwella yn adroddiad ein hadolygiad oedd 'Dylai'r Cyngor ystyried pa gamau ychwanegol y gall eu cymryd i gydweithio â sefydliadau sy'n bartneriaid i helpu i gyflawni amcan partneriaeth y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau'.
- 2 Un o flaenoriaethau adfer strategol y Cyngor yw: 'Harneisio pŵer gwirfoddoli a gweithio gyda phartneriaid a grwpiau cymunedol y trydydd sector i adeiladu etifeddiaeth ar gyfer Arwyr y Fro.' Mae nifer o flaenoriaethau adfer strategol eraill y Cyngor hefyd yn pwysleisio'r angen i weithio gyda phartneriaid.
- 3 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: A yw trefniadau'r Cyngor gyda'r trydydd sector yn cefnogi'r Cyngor yn effeithiol i gyflawni ei flaenoriaethau adfer strategol?
- 4 Wrth gynnal yr adolygiad hwn, gwnaethom dynnu ar ganfyddiadau ein hadroddiad astudiaeth llywodraeth leol **Y Modd y mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector**² a archwiliodd effeithiolrwydd trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer ariannu gwasanaethau'r trydydd sector.
- 5 Gwnaethom gynnal yr adolygiad hwn yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2020 a mis Rhagfyr 2020.

Yr hyn a ganfuwyd gennym

- 6 Gwelsom fod trefniadau'r Cyngor yn cefnogi ei ffordd bresennol o weithio gyda'r trydydd sector, ond bellach y gellid eu cryfhau er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella'r berthynas i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau adfer strategol y Cyngor.
- 7 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:
 - mae trefniadau'r Cyngor yn ei wasanaethu'n dda ar gyfer ei ffordd bresennol o weithio gyda'r trydydd sector;
 - mae'r pandemig wedi tynnu sylw at bwysigrwydd y trydydd sector o ran helpu cymunedau ac mae cyfleoedd i wella ei swyddogaeth; ac

¹ Archwilio Cymru – Adolygiad o'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau

² Archwilio Cymru – Y Modd y mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector

- mae'r Cyngor yn awyddus i gydweithio'n fwy â'r trydydd sector a bydd angen iddo ystyried sut y mae angen i'w drefniadau, gan gynnwys ei ddull o ariannu a goruchwyllo, addasu i gefnogi newid diwylliant o'r fath.

Cynigion ar gyfer gwella

Arddangosyn 1: Cynigion ar gyfer gwella

Mae'r rhestr wirio o'n hadroddiad cenedlaethol yn 2017 o'r enw **Y Modd y mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector** wedi'i nodi'n llawn yn **Atodiad 1**. Er ein bod yn cydnabod bod y Cyngor wedi cwblhau'r rhestr wirio hon o'r blaen ac wedi'i hadrodd i Gydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol, rydym wedi nodi isod yr hyn a ystyriwn yn feysydd allweddol y rhestr wirio i'r Cyngor ganolbwyntio arnynt wrth iddo ailystyried ei berthynas â'r trydydd sector, yn ogystal â chynnwys rhai cynigion ychwanegol ar gyfer gwella i adlewyrchu'r amgylchiadau presennol.

Cynigion ar gyfer gwella

- C1** Dylai'r Cyngor ailystyried y rhestr wirio a nodir yn **Atodiad 1**, yn enwedig yr adrannau canlynol:
- Gweledigaeth
 - Strategaeth gorfforaethol
 - Compact
 - Deall ymgysylltiad â'r trydydd sector
 - Cynllunio gwasanaethau
 - Hyfforddiant
 - Adolygu perfformiad
- C2** Yn rhan o'r adolygiad o'r compact, dylai'r Cyngor adlewyrchu sut y mae'n dymuno gweithio gyda'r trydydd sector i helpu i gyflawni ei flaenoriaethau adfer strategol, sut y gall adeiladu ar y gwaith cadarnhaol a wnaed yn ystod y pandemig, ac ystyried sut y gall gryfhau ei gymhwysu o'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- C3** Dylai'r Cyngor ystyried lefel yr adnoddau a'r buddsoddiad sydd eu hangen i sicrhau ffordd fwy cydweithredol o weithio gyda'r trydydd sector ac adlewyrchu hyn yn ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig.

Cynigion ar gyfer gwella

- C4** Dylai'r Cyngor ystyried pa gamau y gall eu cymryd i helpu'r trydydd sector i addasu i ffordd fwy cydweithredol o weithio.

Adroddiad manwl

Mae trefniadau'r Cyngor yn cefnogi ei ffordd bresennol o weithio gyda'r trydydd sector, ond bellach gellid eu cryfhau er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella'r berthynas i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau adfer strategol y Cyngor

Mae trefniadau'r Cyngor yn ei wasanaethu'n dda ar gyfer ei ffordd bresennol o weithio gyda'r trydydd sector

Y sefyllfa strategol bresennol

- 8 Yn 2019, yn ei ymateb i'r rhestr wirio yn ein hadroddiad cenedlaethol yn 2017, nododd y Cyngor fod ei weledigaeth ar gyfer gweithio gyda'r trydydd sector wedi'i nodi yn ei gompact gyda Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS) a bod ei strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau yn nodi'r rhan werthfawr y gall y trydydd sector ei chwarae wrth gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau blaenoriaeth.
- 9 Mae GVS yn bartner allweddol i'r Cyngor a dyma'r corff ambarél ar gyfer y rhan helaeth o'r trydydd sector ym Mro Morgannwg. Mae'r compact gyda GVS yn nodi fframwaith i'r Cyngor a'r sector gwirfoddol gydweithio fel partneriaid cyfartal. Roedd y bobl y buom yn siarad â nhw yn rhan o'r adolygiad hwn yn cytuno bod gan y Cyngor berthynas adeiladol â GVS a'r trydydd sector ehangach.

Trefniadau llywodraethu, gweinyddu a rheoli perfformiad cyfredol

- 10 Mae'r trydydd sector yn cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau a gwasanaethau, yn amrywio o elusennau mawr, cenedlaethol a rhyngwladol i drefniadau anffurfiol rhwng ychydig o wirfoddolwyr. Cynrychiolir dau ben y sbectwm hwn ym Mro Morgannwg.
- 11 Roedd cyfweleion y trydydd sector y buom yn siarad â nhw yn fodlon ar y cyfan â threfniadau gweinyddol y Cyngor. Er enghraifft, nid ystyriwyd bod y broses ar gyfer gwneud cais am gyllid yn feichus, ac ystyriwyd bod trefniadau monitro y Cyngor ar gyfer prosiectau a ariannwyd gan y trydydd sector yn gymesur.
- 12 Yn adrannau Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, mae gan y Cyngor drefniadau cytundebol sefydledig sy'n cael eu monitro'n rheolaidd. Mae llawer o'r rhain yn rhan o'r Rhaglen Cefnogi Pobl, rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai. O'r herwydd, mae'n ofynnol i dderbynwyr y cyllid fodloni amrywiaeth o gytundebau adrodd a lefel gwasanaeth. Fel arfer, mae'r derbynwyr yn sefydliadau sefydledig sydd â gweithlu proffesiynol.

- 13 Yn 2017, atgyfnerthodd y Cyngor nifer o ffrydiau cyllid grantiau bach i'r Gronfa Cymunedau Cryf, er mwyn symleiddio'r prosesau ymgeisio a gwerthuso. Mae'r symiau o arian dan sylw yn eithaf bach fel arfer ac yn ymdrin ag ystod amrywiol o bynciau. Yn aml, ceir ceisiadau gan grwpiau neu unigolion sy'n gweithredu'n anffurfiol neu'n wirfoddol.
- 14 Yn ein barn ni, mae trefniadau gwerthuso presennol y Cyngor ar gyfer y trydydd sector, y tu allan i'r Rhaglen Cefnogi Pobl, yn drafodiadol i raddau helaeth. Er enghraifft, mae tuedd iddynt ganolbwyntio ar nifer y gweithgareddau a gyflawnir, yn aml heb lawer o gyd-destun na chyfeiriad at ansawdd nac effaith.
- 15 Mae'n gadarnhaol bod gan y Cyngor Gydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol (VSJL), a ystyrir yn fforwm defnyddiol i aelodau a chynrychiolwyr y trydydd sector ddod at ei gilydd. Mae'r Gydbwyllgor yn goruchwyllo'r compact ar lefel uchel. O dan delerau'r compact, mae'r Pwyllgor yn asesu cynnydd o ran cyflawni nodau'r compact. Gwneir hyn drwy bennu ac adolygu camau gweithredu mewn cynllun gwaith, ac mae'r Gydbwyllgor yn ei adolygu'n ffurfiol yn flynyddol. Mae'n darparu goruchwyliaeth lefel uchel o'r compact.

Mae'r pandemig wedi amlygu pwysigrwydd y trydydd sector wrth helpu cymunedau ac mae cyfleoedd i wella ei swyddogaeth

- 16 Mae'r pandemig wedi gorfodi pob un ohonom i wneud pethau'n wahanol. Fel yr amlygwyd yn nogfen y Gymdeithas Llywodraeth Leol ym mis Mehefin 2020³, ledled y wlad, gwelsom gynnydd enfawr yn nifer y bobl sy'n barod i wirfoddoli i helpu pobl yn eu cymunedau. Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda'r trydydd sector a phartneriaid eraill i ymateb i'r pandemig. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi hwyluso prosiect treialu o ran tlodi bwyd yn Llanilltud Fawr lle daeth â sefydliadau presennol at ei gilydd i weld a allant gael mwy o effaith drwy gydweithio. Mae'r cynllun treialu hwn yn enghraifft ddiddorol o'r Cyngor yn hwyluso dull partneriaeth o ymdrin ag angen sy'n dod i'r amlwg. Dylai'r Cyngor werthuso effaith y prosiect hwn ac unrhyw wersi a ddysgwyd, gan ei fod wedi nodi mai cynllun treialu ydyw i ganfod i ba raddau y gellid cynyddu neu ddyblygu'r gwaith hwn mewn ardal arall.
- 17 Roedd ein hadroddiad cenedlaethol yn 2017 yn nodi manteision cynyddu cyfranogiad sefydliadau'r trydydd sector. Gall sefydliadau'r trydydd sector fod yn sensitif i amgylchiadau lleol ac ymateb yn hyblyg i anghenion amrywiol cymunedau. Yn aml, gall cyrff y trydydd sector fod yn gystadleuol yn ariannol, gan fod eu costau sylfaenol yn gymharol isel ac, fel elusennau, maent yn ail-fuddsoddi gwargedion yn ôl i'r gwasanaethau a ddarperir. Ar ôl y pandemig, mae'n debygol y bydd y manteision hyn hyd yn oed yn bwysicach i gynghorau. Mae'r dyfodol yn ansicr, ond mae'r rhan fwyaf o gynghorau'n disgwyl galw cynyddol am rai o'u

³ Cymdeithas Llywodraeth Leol – Accessing Support: the role of the voluntary and community sector during COVID-19

gwasanaethau, ochr yn ochr â gostyngiad mewn incwm o'r Dreth Gyngor, yn bennaf oherwydd bod y pandemig wedi cael effaith anghymesur ar bobl a oedd eisoes yn agored i niwed neu dan anfantais. Bydd angen i gynghorau fod yn arloesol a defnyddio'u dychymyg er mwyn ceisio ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau. Gall y trydydd sector chwarae rhan werthfawr wrth helpu cynghorau i wneud hyn.

- 18 Yng nghramau cynnar y pandemig, datblygodd y Cyngor a GVS fenter Arwyr y Fro. Mae Arwyr y Fro yn dod ag ystod o adnoddau at ei gilydd mewn un lle ar wefan y Cyngor. Gall pobl ofyn am gymorth, chwilio cronfa ddata o grwpiau gwirfoddol, cofrestru i fod yn wirfoddolwr a dod o hyd i ddolenni i ystod o ganllawiau a chymorth. Lluniwyd cyfeiriadur Arwyr y Fro gan GVS o'u cyfeiriadur presennol. Mae GVS yn parhau i ddiweddarau'r cyfeiriadur yn rheolaidd.
- 19 Fel y nodir yn ei Strategaeth Adfer Coronafeirws, mae'r Cyngor wedi gosod rhai egwyddorion adfer ac mae'n gweld cyfle yn wahanol i unrhyw un arall i feddwl yn sylfaenol am y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu ac i drawsnewid. Mae'r Strategaeth yn cynnwys ymrwymiad i'r Cyngor ddilyn ei egwyddorion strategol mewn partneriaeth â'i bartneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector a thrigolion Bro Morgannwg. O'r herwydd, mae cyfle i'r Cyngor adeiladu ar y gwaith a wneir gyda'r trydydd sector, yn enwedig yn ystod y pandemig, a defnyddio dull mwy uchelgeisiol a chydweithredol o weithio gyda'r trydydd sector. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ei fod yn dymuno manteisio ar y cyfle hwnnw, bydd angen iddo fynegi'r hyn y mae'n dymuno ei gael gan y trydydd sector a deall yr hyn y gall y trydydd sector ei wneud drosto. Bydd hyn yn golygu gwneud pethau'n wahanol, a fydd yn cyflwyno heriau a materion newydd sy'n cael eu hystyried yn yr adran isod. Mae uchelgais y Cyngor yn y maes hwn yn cyd-fynd ag un o nodau gwreiddiol y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau sef 'datblygu'r Cyngor a'i bartneriaid i sicrhau eu bod yn gallu bodloni heriau'r dyfodol'.

Mae'r Cyngor yn awyddus i gydweithio'n fwy â'r trydydd sector a bydd angen iddo ystyried sut y mae angen i'w drefniadau, gan gynnwys ei ddull o ariannu a goruchwylio, addasu i gefnogi newid diwylliant o'r fath

- 20 Yn ein barn ni, mae dull a threfniadau strategol y Cyngor yn rhesymol ar gyfer ei berthynas bresennol â'r trydydd sector. Fodd bynnag, mae'n gadarnhaol gweld bod y Cyngor yn manteisio ar y cyfle i ystyried sut y gall weithio gyda'r trydydd sector yn fwy effeithiol. Mae ganddo uchelgais amlwg i weithio'n wahanol gyda'i bartneriaid. Un o flaenoriaethau adfer strategol y Cyngor yw 'Harneisio pŵer gwirfoddoli a gweithio gyda phartneriaid a grwpiau cymunedol y trydydd sector i adeiladu etifeddiaeth ar gyfer Arwyr y Fro'. Mae nifer o flaenoriaethau adfer strategol eraill y Cyngor hefyd yn pwysleisio'r angen i weithio gyda phartneriaid. Aeth adroddiad o'r enw **Adnewyddu Ail-lunio: Y Camau Nesaf ar gyfer Trawsnewid** i'r Cabinet ar 8 Mawrth 2021. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r her o Ail-

lunio gyda'n Cymuned: Herio ein hunain i weithio'n wahanol gyda'n cymuned, partneriaid a'r trydydd sector i weithredu ar y cyd a grymuso eraill i ymateb i heriau'r dyfodol. I wneud hyn, mae llawer o'r themâu a'r awgrymiadau yn ein hadroddiad cenedlaethol a'n rhestr wirio ategol yn parhau i fod yn berthnasol i'r Cyngor eu hystyried, ond rydym wedi tyngu sylw at rai meysydd penodol isod.

Ystyriaethau strategol

- 21 Daw'r compact presennol gyda GVS i ben yn 2021. Mae hyn yn gyfle amserol i'r Cyngor adolygu a nodi sut y mae'n dymuno gweithio gyda'r trydydd sector i helpu i gyflawni ei flaenoriaethau strategol ac adeiladu ar y gwaith cadarnhaol a wnaed yn ystod y pandemig. Byddai'n gyfle gwirioneddol i'r Cyngor ystyried sut y gall gryfhau ei gymhwys o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er enghraifft, gallai fanteisio i'r eithaf ar swyddogaeth y trydydd sector yn ei waith ataliol a chynnwys y trydydd sector yn fwy wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.
- 22 Mae angen cyd-ddealltwriaeth ar draws y Cyngor o beth yw ei uchelgeisiau o ran ei berthynas â'r trydydd sector a sut y mae'n mynd i gyflawni hyn. Bydd newid yn y dull gweithredu yn gofyn am arweinyddiaeth glir yn ogystal â pherchnogaeth aelodau a swyddogion a chefnogaeth y trydydd sector.
- 23 Bydd angen i'r Cyngor hefyd ystyried beth fyddai ffordd fwy cydweithredol o weithio gyda'r trydydd sector yn ei olygu i'w ddull o ariannu. Er enghraifft, bydd angen i'r Cyngor ystyried lefel yr adnoddau a'r buddsoddiad sydd eu hangen, ac unrhyw oblygiadau tymor canolig i hirdymor dull ariannu gwahanol ac adlewyrchu hyn yn ei gynllun ariannol tymor canolig. Mae'r Cyngor wedi adolygu ei gyllid i'r trydydd sector i nodi meysydd lle ceir dyblygu, ond er mwyn cefnogi perthynas well, bydd angen iddo wneud hyn mewn modd mwy systematig er mwyn sicrhau bod ganddo ddealltwriaeth gynhwysfawr o'i gyllid trydydd sector i ddefnyddio ei adnoddau'n effeithlon, effeithiol a darbodus, ac i sicrhau ei fod yn parhau i adolygu hyn. Pwysleisiodd ein hadroddiad astudiaeth genedlaethol bwysigrwydd hyn.
- 24 Gall symud tuag at ddull mwy cydweithredol gyda'r trydydd sector, lle mae'r sector yn ymwneud â dylunio yn ogystal â darparu gwasanaethau o bosibl, olygu newid yng nghydbwysedd rheolaeth y Cyngor, a newid posibl o'i safle traddodiadol fel y comisiynydd neu'r uwch bartner. Byddai sefydlu perthynas fwy cydweithredol yn llwyddiannus yn golygu newid diwylliannol sylweddol i'r trydydd sector, y Cyngor a'i swyddogion, y mae'n debygol y bydd angen cymorth arnynt er mwyn trosglwyddo i'r ffordd newydd hon o weithio. Mae angen i'r newid diwylliannol hwn hefyd ystyried atebolrwydd terfynol y Cyngor am ei gyfrifoldebau statudol, a'i angen i ddangos canlyniadau da a gwerth am arian. Ni ddylid tanamcangyfrif graddau posibl y newid diwylliannol ar y ddwy ochr, ond pwysleisiodd ein hadroddiad cenedlaethol y manteision y gellid eu cyflawni, ac roedd parodrwydd gan y Cyngor a'r GVS i adeiladu ar y berthynas a'r profiad.

Capasiti ac awydd am newid

- 25 Mae'r trydydd sector yn cynnwys sefydliadau o wahanol feintiau sydd â gallu gwahanol i ymgysylltu â'r Cyngor. Mae'r pandemig wedi arwain at fwy o alw am wasanaethau rhai sefydliadau wrth gyfyngu ar eu gallu i gynnal eu gweithgareddau codi arian arferol. Ar wahân i'r pandemig, mae sefydliadau'r trydydd sector fel arfer yn cyfeirio'r mwyafrif helaeth o'u hadnoddau at ddarpariaeth rheng flaen. Gall hyn adael capasiti cyfyngedig i'r trydydd sector gymryd rhan mewn trafodaethau mwy strategol neu ddamcaniaethol nad oes ganddynt gynnig neu gyllid pendant ar ei ddiwedd. Felly, bydd angen i'r Cyngor ganfod lefel yr awydd yn y trydydd sector i symud tuag at ddull gwahanol.
- 26 Fel y nodir yn ein hadroddiad astudiaeth llywodraeth leol yn 2017, mae meithrin gallu o fewn y trydydd sector i sicrhau bod sefydliadau'n gallu cymryd rhan mewn prosesau cyllid strategol, yn swyddogaeth bwysig i gynghorau. Bydd angen i'r Cyngor ystyried sut y gall gefnogi sefydliadau'r trydydd sector i'w helpu i addasu i ffordd fwy cydweithredol o weithio. Mae unrhyw newidiadau i'r berthynas yn debygol o fod yn gynyddrannol, gyda'r nod o gyflawni newid tymor canolig i hirdymor.
- 27 Bydd angen i'r Cyngor hefyd ystyried ei allu ei hun i wireddu ei ddyheadau o ran gweithio gyda'r trydydd sector. Mae gweithio gyda'r trydydd sector yn rhan o swyddogaeth llawer o bobl. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor adnodd penodol canolog ar gyfer cydgysylltu a goruchwyllo cyfeiriad strategol gwaith gyda'r trydydd sector. Yn ystod y pandemig, mae swyddogion y Cyngor a chynrychiolwyr y trydydd sector wedi gweithio'n hynod o galed i ymateb i'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu, ond mae'n ansicr a fydd dull gweithredu o'r fath yn gynaliadwy heb ddefnyddio adnoddau mewn ffordd wahanol. Canfu ein hadroddiad cenedlaethol yn 2017 mai ychydig o gynghorau oedd ag arweinydd corfforaethol dynodedig ar gyfer y trydydd sector, ac amlygodd rai o fanteision gwneud hynny. Canfu ein hadroddiad ei bod yn anodd i swyddogion awdurdodau lleol ddeall amrywiaeth a chymhlethdod eu trydydd sector lleol a bod angen ymgysylltu'n gynnar ac yn effeithiol â'r trydydd sector er mwyn helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n manteisio i'r eithaf ar arbenigedd y trydydd sector ac yn defnyddio adnoddau'n ddoeth. Mae'n amlwg bod angen i unrhyw newid i berthynas y Cyngor â'r trydydd sector fod o fudd i'r ddwy ochr, a bydd angen rheoli disgwyliadau ar y ddwy ochr.

Trefniadau llywodraethu a goruchwyllo

- 28 Un o ganfyddiadau ein hadroddiad yn 2017 oedd na all cynghorau ddangos tystiolaeth gyson o effaith eu gwaith gyda'r trydydd sector. Bydd angen i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau goruchwyllo a rheoli perfformiad os yw'r trydydd sector yn chwarae rhan fwy canolog wrth helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau ac os yw'r Cyngor yn buddsoddi cyfran fwy o'i arian a'i adnoddau yn y trydydd sector. Fel y disgrifiwyd gennym yn gynharach, y tu allan i'r rhaglen Cefnogi Pobl, canfu ein hadolygiad fod tuedd i'r Cyngor ganolbwyntio ar yr elfennau mwy trafodiadol yn hytrach na chanlyniadau o'i waith gyda'r trydydd sector. Byddai angen i'r Cyngor

sicrhau bod ganddo drefniadau adrodd a gwerthuso clir a chymesur ar waith. Ar hyn o bryd, mae Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol yn fwy o fforwm ymgynghorol na system graffu neu oruchwylio, ond fel pwyllgor sefydledig, mae ganddo'r potensial i gryfhau ei swyddogaeth. Mae potensial hefyd i bwyllgorau craffu chwarae mwy o ran wrth ddarparu goruchwyliaeth ychwanegol.

- 29 Fel y pwysleisiodd ein hadroddiad cenedlaethol, er mwyn cael perthynas effeithiol â'r trydydd sector, bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod ganddo ddealltwriaeth glir o gyfanswm ei wariant ar y trydydd sector a'r dystiolaeth i'w sicrhau ei hun bod ei adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, effeithlon a darbodus i gyfrannu at gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor a gwell canlyniadau, heb roi baich gweinyddol anghymesur ar sefydliadau bach. Byddai hyn yn cynnwys gwerthuso cynlluniau ac ystyried sut y gellir prif ffrydio neu gynyddu'r rhai sy'n gweithio'n dda.

Atodiad 1

Rhestr wirio ar gyfer awdurdodau lleol sy'n ymgysylltu'n effeithiol ac yn gweithio gyda'r trydydd sector

Arddangosyn 2: rhestr wirio

Daw'r rhestr wirio ganlynol o'n hadroddiad cenedlaethol ym mis Ionawr 2017 o'r enw **Y Modd y mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector**:

Ardal	Ar waith	Yn cael ei ddatblygu	Ddim ar waith
1. Trefniadau strategol			
Gweledigaeth			
Mae gan yr awdurdodau lleol weledigaeth y cytunwyd arni ynglŷn â sut y bydd yn gweithio gyda'r trydydd sector sy'n cwmpasu pob gwasanaethau a'r holl gyllid a roddir i'r trydydd sector.			
Mae'r weledigaeth wedi'i rhannu â phob aelod perthnasol o staff yn yr awdurdod lleol ac fe'u deellir ganddynt.			
Mae'r weledigaeth wedi'i rhannu â'r aelodau etholedig, mae wedi'i chymeradwyo ganddynt ac fe'u deellir ganddynt.			
Mae'r weledigaeth wedi'i rhannu â'r cyngor gwirfoddol sirol lleol ac fe'i deellir ganddo.			
Mae'r weledigaeth wedi'i dosbarthu i sefydliadau yn y trydydd sector sy'n gweithio gyda'r awdurdod lleol.			
Dull corfforaethol			
Mae gan yr awdurdod lleol ddull corfforaethol o weithio gyda'r trydydd sector sy'n cwmpasu pob adran a gwasanaeth.			
Mae'r dull yn troi'r weledigaeth gorfforaethol yn gamau gweithredu ymarferol.			

Ardal	Ar waith	Yn cael ei ddatblygu	Ddim ar waith
1. Trefniadau strategol			
Dull corfforaethol			
Mae'r awdurdod lleol wedi dynodi arweinydd corfforaethol ar gyfer y trydydd sector sy'n gyfrifol am oruchwylio a chydgysylltu'r holl gyllid y mae'r awdurdod lleol yn ei roi i'r trydydd sector.			
Cytundeb			
Mae gan yr awdurdod lleol gytundeb cyfredol â'r trydydd sector.			
Mae'r cytundeb yn nodi ac yn diffinio'r gydberthynas a'r hyn a ddisgwylir gan yr awdurdod lleol a'r trydydd sector pan fyddant yn cydweithio yn glir.			
Mae dealltwriaeth gyffredin rhwng yr awdurdod lleol a'r trydydd sector o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy gydweithio.			
Mae'r cytundeb wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion yr ardal leol ac wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r trydydd sector.			
Caiff y cytundeb ei adolygu'n rheolaidd.			
Mae'r cytundeb yn ystyried arian a roddir i'r trydydd sector gan gyrrff iechyd a chomisiynwyr yr heddlu a throseddau.			
Cyngor gwirfoddol sirol			
Mae'r awdurdod lleol a'r cyngor gwirfoddol sirol wedi cytuno ar gylch gwaith a chyfrifoldebau'r olaf yn ogystal â'i gyfyngiadau.			
Cytunwyd ar y ffordd y bydd cyngor gwirfoddol sirol yn cynrychioli'r trydydd sector a'r meysydd y bydd yn cynrychioli'r trydydd sector mewn perthynas â nhw.			

Ardal	Ar waith	Yn cael ei ddatblygu	Ddim ar waith
1. Trefniadau strategol			
Trefniadau partneriaeth			
Nodir rôl y trydydd sector a chytunir arni ar bob partneriaeth a phwyllgor addas a gofynnol ar:			
<ul style="list-style-type: none"> lefel gorfforaethol – yng ngwaith y partneriaethau strategol a'r pwyllgorau craffu corfforaethol; 			
<ul style="list-style-type: none"> lefel adrannol – mewn trefniadau partneriaeth penodol er mwyn cefnogi agendâu polisi ehangach o fewn meysydd diffiniedig; a 			
<ul style="list-style-type: none"> lefel gwasanaeth – ar bartneriaethau lleol a mentrau penodol a arweinir gan wasanaethau. 			
Deall ymgysylltu â'r trydydd sector			
Mae gan yr awdurdod lleol gofnod canolog o'r holl arian a ddyfernir i sefydliadau yn y trydydd sector gan yr awdurdod lleol a gaiff ei ddiweddarau'n flynyddol.			
Mae'r awdurdod lleol yn coladu gwybodaeth ariannol ac yn cyflwyno adroddiad o leiaf unwaith y flwyddyn ar yr holl arian y mae wedi'i roi i'r trydydd sector sy'n dangos y canlynol:			
<ul style="list-style-type: none"> pa sefydliadau a ariennir gan yr awdurdod lleol; 			
<ul style="list-style-type: none"> gwerth y contract; 			
<ul style="list-style-type: none"> pa systemau ariannu, naill ai grant neu gontractau, a ddefnyddiwyd; 			
<ul style="list-style-type: none"> hyd y contract; 			
<ul style="list-style-type: none"> pa adran/gwasanaeth sydd wedi contractio'r sefydliad trydydd sector; 			
<ul style="list-style-type: none"> y mesurau llwyddiant a bennwyd ar gyfer y gwaith; a 			
<ul style="list-style-type: none"> beth yw manteision arfaethedig y gwaith. 			

Ardal	Ar waith	Yn cael ei ddatblygu	Ddim ar waith
2. Prosesau ariannu			
Cynllunio gwasanaethau			
Mae'r awdurdod lleol yn manteisio ar arbenigedd a gwybodaeth y trydydd sector wrth gynllunio gwasanaethau newydd i'w darparu gan y trydydd sector.			
Wrth gynllunio gwasanaethau, mae'r awdurdod lleol yn nodi'n glir:			
<ul style="list-style-type: none"> • y galw y mae'r gwasanaeth yn ei ateb; 			
<ul style="list-style-type: none"> • sut mae wedi penderfynu ar y math o wasanaeth sydd ei angen arno; 			
<ul style="list-style-type: none"> • a oes angen atebion arloesol; a 			
<ul style="list-style-type: none"> • sut y bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gyda darparwyr presennol a darpar ddarparwyr i fireinio a datblygu'r gwasanaeth ymhellach. 			
Systemau dyfarnu effeithiol			
Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu un system ariannu ganolog a chorfforaethol ar gyfer rheoli a dyfarnu holl gyllid y trydydd sector.			
Mae gan yr awdurdod lleol systemau effeithiol i ddyfarnu arian i sefydliadau sy'n nodi'r canlynol:			
<ul style="list-style-type: none"> • amserlen ariannu glir sydd ar gael i bob darpar gynigiwr er mwyn iddo allu paratoi ar gyfer cyfleoedd; 			
<ul style="list-style-type: none"> • y broses a ddefnyddir i wneud penderfyniad (er enghraifft, ceisio dyfynbrisiau neu ddefnyddio proses dendro neu broses gynnig); 			
<ul style="list-style-type: none"> • y gwerth a'r risg sy'n gysylltiedig â'r gwahanol lwybrau ariannu; 			

Ardal	Ar waith	Yn cael ei ddatblygu	Ddim ar waith
2. Prosesau ariannu			
Systemau dyfarnu effeithiol			
<ul style="list-style-type: none"> a ellir mabwysiadu prosesau llai manwl yn unol â Chyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus yr UE er mwyn penodi sefydliadau i wneud y gwaith; 			
<ul style="list-style-type: none"> meini prawf clir a chyhoeddedig a ddeallir gan bob sefydliad sy'n ceisio arian, gan gynnwys cymalau budd i'r gymuned; 			
<ul style="list-style-type: none"> y gost a'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn i'r awdurdod lleol oruchwylio a gweinyddu'r broses; 			
<ul style="list-style-type: none"> am faint o amser y darperir arian; a 			
<ul style="list-style-type: none"> sut yr eir ati i adennill costau llawn. 			
Systemau dyfarnu effeithlon			
Mae gan yr awdurdod lleol systemau corfforaethol effeithlon i ddyfarnu arian sy'n seiliedig ar y canlynol:			
<ul style="list-style-type: none"> prosesau gwneud cais cryno a chllir; 			
<ul style="list-style-type: none"> defnyddio systemau ar-lein ac electronig i ddosbarthu a choladu gwybodaeth a cheisiadau; 			
<ul style="list-style-type: none"> trefniadau gwneud penderfyniadau byr o'r dechrau i'r diwedd; 			
<ul style="list-style-type: none"> y nifer leiaf bosibl o gamau a phrosesau sydd eu hangen i wneud penderfyniad; a 			
<ul style="list-style-type: none"> phenderfyniadau yn cael eu dirprwyo i'r lefel isaf. 			

Ardal	Ar waith	Yn cael ei ddatblygu	Ddim ar waith
2. Prosesau ariannu			
Grantiau neu contractio			
Mae'r awdurdod lleol wedi nodi'r amgylchiadau lle y bydd yn defnyddio arian grant a'r amgylchiadau lle y bydd yn contractio gwasanaethau. Mae hyn wedi'i rannu â phob darpar gynigiwr, gan gynnwys y trydydd sector.			
Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod y broses hon yn gyson ac yn briodol i'r risgiau a'r swm o arian sy'n cael ei roi.			
Mae telerau ac amodau contract yr awdurdod lleol yn gymesur â'r arian sy'n cael ei roi ac yn ymwneud yn benodol â'r gwaith sy'n cael ei ariannu.			
Mae'r awdurdod lleol yn adolygu'r prosesau ariannu hyn er mwyn sicrhau nad ydynt yn atal sefydliadau yn y trydydd sector rhag cael gwaith gan yr awdurdod lleol yn anfwriadol.			
Hyfforddiant			
Mae'r awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant i gefnogi'r trydydd sector sy'n cwmpasu'r canlynol:			
<ul style="list-style-type: none"> • sut i wneud cais am arian – yr hyn y dylid ei wneud a pheidio â'i wneud; 			
<ul style="list-style-type: none"> • cydymffurfio â systemau caffael yr awdurdod lleol; 			
<ul style="list-style-type: none"> • prosesau casglu data; 			
<ul style="list-style-type: none"> • trefniadau rheoli perfformiad a chraffu; 			
<ul style="list-style-type: none"> • cylchoedd talu a thargedau perfformiad; a 			
<ul style="list-style-type: none"> • therfynu contractau/gofynion o ran parhau. 			

Ardal	Ar waith	Yn cael ei ddatblygu	Ddim ar waith
3. Rheoli perfformiad			
Casglu gwybodaeth			
Mae'r awdurdod lleol wedi nodi'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn monitro a gwerthuso perfformiad sefydliadau yn y trydydd sector a ariennir ganddo a nodir y wybodaeth hon yn y cytundeb ar gyfer gwaith a ariennir.			
Mae'r wybodaeth ond yn mesur gweithgarwch perthnasol.			
Mae'r systemau i gasglu gwybodaeth yn syml ac yn effeithlon ac mae sefydliadau yn y trydydd sector ond yn cyflwyno gwybodaeth unwaith ac yn electronig yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt.			
Adolygu perfformiad			
Mae'r awdurdod lleol yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar gyllid y trydydd sector i bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth am berfformiad sy'n cwmpasu'r awdurdod lleol cyfan. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys y canlynol:			
<ul style="list-style-type: none"> • safonau clir o ran yr hyn y mae'n ofynnol i sefydliadau yn y trydydd sector berfformio yn ei erbyn a sut y dylent wneud hynny, sy'n ymwneud yn benodol â'r gwasanaeth a ariennir gan yr awdurdod lleol; 			
<ul style="list-style-type: none"> • casgliadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol; a 			
<ul style="list-style-type: none"> • data perfformiad perthnasol seiliedig ar wasanaethau. 			
Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi'r prosesau cywir ar waith i graffu ar berfformiad a'i farnu. Dylai'r rhain fod yn gymesur â gwerth yr arian ond sicrhau eu bod yn rhoi sicrwydd i'r awdurdod lleol bod ei arian yn cyflawni'r canlyniadau disgwylidiedig.			

Ardal	Ar waith	Yn cael ei ddatblygu	Ddim ar waith
3. Rheoli perfformiad			
Rheoli risg a'r gwasanaeth archwilio mewnol			
Ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig ag ariannu'r trydydd sector ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth wrth ddatblygu cynlluniau rheoli risg ar draws yr awdurdod lleol a chytuno arnynt.			
Cynhelir rhaglen dreigl o systemau archwilio mewnol ac adolygiadau o gydymffurfiaeth mewn perthynas â'r modd y mae'r awdurdod lleol yn ariannu gwasanaethau'r trydydd sector, ei systemau a'i arferion.			



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales

Gwefan: www.audit.wales

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.